

Teitl: Title:	Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol - Meithrinfa Toybox
Fersiwn: Version	2
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr Meithrinfa, staff a phlant

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Asesiad effaith / Impact assessment
<i>Effaith ar y Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</i>

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager		
Ymgynghoriad/ Consultation:	<i>Staff y Feithrinfa</i>		
Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group		-
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:		22/01/2025
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	-
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	Ar y gweill 31 Mawrth 2025
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	-
	Corff Llywodraethu / Governing Body:		Ar y gweill 9 Ebrill 2025
Dyddiad Adolygu: Review Date:	15/01/28		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Anghenion Dysgu Ychwanegol

1. Datganiad o Fwriad	2
2. Amcanion	3
3. Dulliau	4

1. Datganiad o fwriad

Ym Meithrinfa Toybox rydym wedi ymrwymo i gynnwys pob plentyn. Mae gan bob plentyn hawl i gael gofal ac addysg i ddatblygu eu potensial llawn ochr yn ochr â'i gilydd trwy brofiadau cadarnhaol a diddorol, i'w galluogi i rannu cyfleoedd a datblygu a dysgu oddi wrth ei gilydd. Rydym yn darparu amgylchedd croesawgar lle mae plant yn cael cefnogaeth yn unol â'u hanghenion unigol ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau nad oed unrhyw blentyn yn cael ei wahaniaethu neu'n cael ei roi dan anfantais fel canlyniad i'w hanghenion. Er ein bod yn cydnabod nad oes rôl statudol o fewn lleoliadau ar gyfer Cydlynnydd ADY erbyn hyn, rydym yn hyrwyddo arfer gorau ac mae gennym aelod staff dynodedig fel Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Lleoliad (Cydlynnydd ADY Lleoliadau).

Rydym yn credu bod gan bob plentyn yr hawl i'r un cyfleoedd ac i ddatblygu ar y cyd â'u cymheiriaid ni waeth beth fo'u hanghenion unigol. Mae anghenion pob plentyn yn unigryw, felly mae'n anaddas ceisio categoreiddio plant.

Er mwyn ein galluogi i helpu pob plentyn ddatblygu i'w potensial llawn, rydym wedi ymrwymo i weithio ochr yn ochr â rhieni i gefnogi anghenion unigol eu plentyn.

Rydym wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol i alluogi pob plentyn i ddefnyddio cyfleusterau'r feithrinfa'n llawn. Mae gan bob plentyn yr hawl i amgylchedd dysgu cynnar eang a chytbwys.

Lle rydym yn credu bod gan blentyn anghenion ychwanegol nad ydynt wedi cael eu cydnabod o'r blaen, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhieni'r plentyn ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol i benderfynu a oes angen unrhyw gamau gweithredu ychwanegol.

Lle bo gan blentyn anghenion ychwanegol, rydym yn teimlo ei bod yn hollbwysig darganfod cymaint â phosibl am yr anghenion hynny, unrhyw ffordd y gallai hyn effeithio ar ei anghenion dysgu cynnar neu ofal ac unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen arno/arni drwy:

- Gysylltu gyda rhieni'r plentyn a, lle bo'n briodol, y plentyn
- Cysylltu gydag unrhyw asiantaethau proffesiynol
- Darllen unrhyw adroddiadau sydd wedi'u paratoi
- Mynd i unrhyw gyfarfodydd adolygu gyda'r awdurdod lleol/gweithwyr proffesiynol
- Goruchwyllo datblygiad pob plentyn a monitro arsylwadau o'r fath yn rheolaidd.

Bydd pob plentyn yn cael cyfnod ymgartrefu wrth ymuno â'r feithrinfa yn unol â'u hanghenion unigol.

2. Amcanion

Byddwn yn:

- Annog plant i werthfawrogi a pharchu eraill
- Herio ymagweddau ac arferion anaddas
- Hyrwyddo delweddau cadarnhaol a modelau rôl yn ystod profiadau chwarae'r rhai ag anghenion ychwanegol lle bynnag y bo modd
- Dathlu amrywiaeth ym mhob agwedd o chwarae a dysgu
- Cynnwys pob plentyn a'u teuluoedd yn ein darpariaeth
- Cydnabod anghenion unigol pob plentyn a sicrhau bod yr holl staff yn ystyried y canlynol ac yn ymwybodol o:
 - Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ar gyfer plant sydd eisoes wedi cael adnabyddiaeth AAA cyn 2021
 - Y system a'r cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gyfer adnabod o'r newydd ac asesu unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu gan ddarpariaeth gyffredinol y meithrinfeydd
- Darparu ymarferwyr gwybodus ac wedi'u hyfforddi'n addas i helpu i gefnogi rhieni a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anabledau
- Fel arfer gorau, dynodi un neu ddau aelod o staff yn Gydlynnydd(ion) Anghenion Dysgu Ychwanegol Lleoliadau (Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol Lleoliadau)
- Helpu'r awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau ADY mewn perthynas â phlant unigol yn dilyn nodi ADY gan yr awdurdod lleol a datblygu Cynllun Datblygu Unigol (CDU)
- Gweithio mewn partneriaeth â rhieni ac asiantaethau eraill er mwyn diwallu anghenion unigol plant, gan gynnwys y Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynnyddoedd Cynnar (Swyddog Arweiniol ADY BC) o'r awdurdod addysg lleol, a cheisio cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant lle bo angen.
- Darparu gwybodaeth berthnasol i'r awdurdod lleol a'r Swyddog Dysgu Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynnyddoedd Cynnar i'w cefnogi i greu, cynnal a gweithredu Cynllun Datblygu Unigol (CDU) plentyn.
- Derbyn gwahoddiadau i gyfrannu at gyfarfodydd Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar y Person (PCP) ynghylch ADY neu CDU, gellid gwneud hyn drwy fynd i'r cyfarfod (wyneb yn wyneb neu o bell) neu drwy gyfrannu y tu allan i'r cyfarfod, er enghraifft, drwy ddarparu tystiolaeth am anghenion neu gynnydd plentyn.
- Monitro ac adolygu ein harfer a'n darpariaeth ac addasu, a cheisio offer a gwasanaethau arbenigol os oes angen

Ein Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Lleoliadau (Cydlynnydd ADY Lleoliadau) yw Pam Quinn.

Rôl y Cydlynnydd ADY Lleoliadau yw cefnogi cysondeb negeseuon a gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer pob mater sy'n ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd Cydlynnydd(ion) ADY Lleoliadau hefyd yn gweithredu fel y prif gyswllt rhwng y lleoliad a Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynnyddoedd Cynnar (Swyddog Arweiniol ADY BC) yr Awdurdod Lleol. Dylai'r Cydlynnydd ADY Lleoliadau hefyd sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw. Mae'r rhain yn cynnwys cofnodion presennol plant yn y Cynllun Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar a Gweithredu yn y Blynnyddoedd Cynnar a Mwy a'r rhai sydd â datganiadau. I'r rhai sydd newydd gael eu nodi fel rhai ag ADY posibl, mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Swyddog Dysgu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y Blynnyddoedd Cynnar i ddatblygu ac adolygu Cynllun Datblygu Unigol (CDU) plentyn. Dylai'r ymarferydd sydd fel arfer yn gyfrifol am y plentyn barhau i fod yn gyfrifol am weithio gyda'r plentyn o ddydd i ddydd ac am gynllunio a chyflwyno rhaglen unigol. Dylid ymgynghori â rhieni bob amser a rhoi gwybod iddynt am y camau a gymerir i helpu'r plentyn, ac am ganlyniad y camau hyn.

Mae Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Lleoliadau'n gweithio'n agos gyda'r holl staff i wneud yn siŵr bod systemau ar waith i gynllunio, gweithredu, monitro, adolygu a gwerthuso arfer a pholisi

anghenion dysgu'r feithrinfa, gan sicrhau bob amser bod cynlluniau a chofnodion yn cael eu rhannu gyda rhieni.

3. Dulliau

Byddwn yn:

- Nodwch aelod o staff i fod yn Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Lleoliadau (Cydlynnydd ADY Lleoliadau) a rhannwch ei enw/henw gyda rhieni
- Darparu datganiad sy'n dangos sut rydym yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol a rhannu hyn gyda staff, rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill
- Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer plant ag AAA/ADY yn gyfrifoldeb pob aelod o staff yn y feithrinfa
- Sicrhau bod ein polisi derbyniadau yn gynhwysol ac yn cynnwys mynediad a chyfle cyfartal
- Sicrhau bod ein hamgylchedd ffisegol cyn belled ag y bo modd yn addas ar gyfer plant ac oedolion ag anableddau
- Gweithio'n agos gyda rhieni i greu a chynnal partneriaeth gadarnhaol sy'n cefnogi dysgu a datblygiad eu plentyn
- Rhoi gwybodaeth i rieni am ffynonellau cyngor a chefnogaeth annibynnol
- Cysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â phlant ag anghenion ychwanegol a/neu anableddau a'u teuluoedd, gan gynnwys trefniadau trosglwyddo i leoliadau ac ysgolion eraill. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r ysgol neu'r lleoliad gofal nesaf ac yn cyfarfod â nhw i drafod anghenion y plentyn er mwyn sicrhau cyfnewid gwybodaeth a pharhad gofal.
- Darparu amgylchedd dysgu cynnar eang a chytbwys i bob plentyn ag anghenion ychwanegol a/neu anableddau
- Darparu gweithgareddau gwahaniaethol i ddiwallu anghenion a galluoedd unigol i gyd
- Cefnogi'r awdurdod lleol a'r Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Blynnyddoedd Cynnar i greu, cynnal a gweithredu Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer plant ag ADY. Trafod y CDUau hyn gyda rhieni
- Defnyddio system ar gyfer cadw cofnod o weithredu CDUau plant.
- Gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddarparu adnoddau ychwanegol, lle bo'n bosib, i ymgorffori ein polisi AAA/ADY.
- Darparu hyfforddiant mewn swydd i ymarferwyr a gwirfoddolwyr
- Codi ymwybyddiaeth o unrhyw arbenigedd sydd gan y lleoliad i'w gynnig, e.e. staff hyfforddedig Makaton
- Sicrhau effeithiolrwydd ein darpariaeth AAA/ADY drwy gasglu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau e.e. adolygiadau CAE/CDU, cyfarfodydd staff a rheolwyr, barn rhieni ac asiantaethau allanol, arolygiadau a chwynion. Caiff y wybodaeth hon ei chasglu, ei gwerthuso a'i hadolygu'n flynyddol
- Darparu gweithdrefn gwyno a'i gwneud ar gael i bob rhiant mewn fformat sy'n diwallu eu hanghenion e.e. Braille, sain, print bras, ieithoedd ychwanegol
- Monitro ac adolygu ein polisi yn flynyddol.

Cod ymarfer anghenion addysgol arbennig

Mae'r feithrinfa'n ystyried y canllawiau statudol a nodir yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2004) yn unig ar gyfer y plant hynny y nodwyd bod ganddynt ADY cyn Medi 2021 sy'n parhau i ddefnyddio'r lleoliad.

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Cymru 2021

Ar 1 Medi 2021, dechreuodd y system ADY ar gyfer pob plentyn hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 10 y tybiwyd neu y nodwyd yn ddiweddar bod ganddynt ADY ar 1 Medi 2021 neu ar ôl hynny. Mae hyn yn golygu bod y system ADY yn berthnasol i bob plentyn sydd newydd gael ei nodi fel un sydd ag ADY, neu sydd newydd gael ei ystyried fel un sydd ag ADY, waeth sut mae eu haddysg yn cael ei darparu.

Bydd y feithrinfa'n ystyried y Cod a'r Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ôl yr angen yn unol â'r amserlen weithredu.

Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Mae CDU yn gynllun statudol a gynhelir gan yr awdurdod lleol sy'n nodi disgrifiad o ADY plentyn neu berson ifanc, y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (ALP) y mae ei hangen oherwydd ei anhawster neu anabledd dysgu, a gwybodaeth gysylltiedig arall. Bwriad y CDU yw bod yn ddogfen hyblyg a fydd yn amrywio o ran hyd a chymhlethdod yn dibynnu ar wahanol anghenion y plentyn a'r ffordd y mae anghenion plentyn unigol yn datblygu ac yn newid dros amser.